

# Crynodeb o Wiriad Ansawdd

Enw'r Lleoliad: Ward B, Ysbyty Treforys

Dyddiad y gweithgaredd: 9 Medi 2020

Dyddiad cyhoeddi: 7 Hydref 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Cofnod Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliwyd gwiriad ansawdd o bell gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Ward B, Ysbyty Treforys fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull gweithredu haenog newydd mewn perthynas â sicrwydd. Maent yn cynnig un ymhlith sawl ffordd i AGIC edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r gwiriadau ansawdd hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull o gynnal arolygiadau [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward ar 9 Medi 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

## Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a wynebir ganddo yn sgil COVID-19, a'r newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio unigolion. Gwnaethom adolygu polisiau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd Ward B yn ward trawma ac orthopedeg â 26 o welyau. Roedd y mwyafrif o'r cleifion

---

ar y ward yn oedrannus ac roedd gan lawer ohonynt dementia. Dywedwyd wrthym fod yr amgylchedd yn cael ei asesu er mwyn sicrhau bod cyn lleied o risgiau â phosibl drwy, er enghraifft, sicrhau nad oedd unrhyw annibendod yn y coridorau er mwyn lleihau'r risg o gwmpo. Roedd yr allanfeydd tân yn cael eu cadw'n glir ac roedd cynllun tân clir yn cael ei arddangos. Roedd y clychau galw a'r goleuadau mewn cyflwr da.

Roedd y ward yn ward rhyw cymysg, gyda phedwar cilfan a thri chiwbicl unigol. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cynnwys unigolion a oedd yn aros i gael llawdriniaeth ar wddf y ffemwr (sef llawdriniaeth ar gyfer clun wedi'i thorri). Roedd y ciwbiclau'n cael eu defnyddio ar gyfer cleifion yr amheuwyd neu y cadarnhawyd bod heintiau arnynt.

Roedd ardaloedd ar gyfer gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol y tu allan i'r gwahanol ystafelloedd, ac roedd ardaloedd wedi'u marcio ar gyfer nyrsio ataliol, sef dull o reoli a lleihau nifer a difrifoldeb y peryglon wrth roi gofal ynysu. Roedd y ward yn ffodus am fod modd ynysu ardaloedd, er enghraifft dim ond un drws oedd yn mynd i mewn ac allan, ac roedd lle i'r staff newid i gyfarpar diogelu personol y tu allan i ardaloedd y cleifion.

Dyweddodd y staff y cyfwelwyd â nhw bod cyfarpar diogelu personol ar gael y tu allan i bob ardal o'r ward at ddefnydd pob aelod o'r staff, a bod pob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol yn cael ei annog i amlygu'r croen islaw'r penelinoedd. Roedd tâp "I am clean" yn cael ei roi ar eitemau megis comodau a theclynnau codi ar ôl iddynt gael eu glanhau, er mwyn rhoi sicrwydd i'r cleifion bod cyfarpar glân yn cael ei ddefnyddio. Roedd matresi hefyd yn cael eu harchwilio er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw hylifau wedi mynd i mewn iddynt ac nad oeddent yn hydraidd. Roedd y dogfennau diweddaraf, megis y rhestr flaenoriaethau ar gyfer defnyddio'r ciwbiclau, canllawiau glanhau a'r polisi brechiadau oll yn cael eu harddangos yn ardal y ward er mwyn sicrhau bod modd cyfeirio atynt yn gyflym ac yn hawdd. Roedd yr holl bolisiau rheoli heintiau ar gael ar y fewnwyd gyda chanllawiau cyfeirio cyflym. Roedd weips llaw unigol yn cael eu rhoi i'r cleifion cyn prydau bwyd.

Yn ystod pandemig COVID-19, cafodd ymweliadau arferol â'r ysbyty eu hatal dros dro. Cyhoeddwyd canllawiau ar ailgyflwyno ymweliadau ym mis Gorffennaf, a dywedwyd wrthym fod y ward wrthi'n treialu trefniadau ar gyfer caniatáu i'r cleifion gael ymwelwyr. Roedd y cleifion yn cael cyfnod o ddwy awr ac yn cael gweld un perthynas mewn cilfan, gydag ymweliadau unigolion yn dechrau ac yn gorffen ar wahanol amseroedd, ac wedi'u dyrannu yn ôl cyfran. Pe bai'r cleifion yn sâl iawn ac yn ddryslyd, byddai'r drefn hon yn cael ei haddasu er mwyn caniatáu iddynt gael mwy o ymweliadau.

Roedd y cynllun peilot hwn wedi bod ar waith ar y ward ers pedair wythnos. Dywedwyd wrthym ei fod wedi helpu gyda hwyliau'r cleifion, yn arbennig y cleifion hynny a oedd wedi bod ar y ward ers cryn amser. Roedd y cleifion hefyd yn gallu defnyddio dyfeisiau electronig personol yr ysbyty er mwyn eu galluogi i gysylltu â'u perthnasau a'u gweld. Lleihawyd nifer y staff clinigol a oedd yn ymweld â'r ward hefyd, er mwyn cyfyngu ar gyfleoedd croes-heintio.

---

Gwelsom dystiolaeth o bolisiau rheoli heintiau cyfredol, gan gynnwys polisiau rheoli haint COVID-19, megis y Llwybr Profi a Rheoli Cleifion â COVID-19 a'r Llwybr Cleifion sy'n Oedolion i Gleifion sy'n Gwella o COVID-19.

Cyflwynwyd tystiolaeth yn dangos bod wyth claf wedi cael COVID-19 pan oeddent ar y ward. Roeddem yn fodlon bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu achosion o COVID-19 er mwyn nodi gwersi i'w dysgu, a bod cynllun ar waith ganddo i fabwysiadu methodoleg Cymru gyfan unwaith y bydd y Grŵp Nosocmiaidd<sup>1</sup> wedi ei chymeradwyo.

Roedd system o'r enw SIGNAL yn cael ei defnyddio i nodi cleifion yr amheuwyd neu y cadarnhawyd bod COVID-19 arnynt. Bwrdd cipolwg ar ddiogelwch cleifion electronig oedd hwn, a oedd yn gysylltiedig â'r ysbyty cyfan. Byddai gwybodaeth am unrhyw glaf a fyddai'n datblygu COVID-19 yn cael ei nodi ar DATIX, sef y system sefydliad cyfan y byddai'r holl staff yn ei defnyddio i roi gwybod am ddigwyddiadau a risgiau.

Dywedodd y staff fod system ar waith gan y ward i ffonio'r stordy perthnasol i gael cyfarpar diogelu personol yn ôl yr angen yn ddyddiol, ac nad oedd unrhyw broblemau wedi codi o ran y cyflenwad cyfarpar diogelu personol.

Dywedwyd wrthym fod sesiynau llesiant ychwanegol wedi cael eu trefnu yng nghampfa'r ysbyty i gefnogi llesiant y staff yn ystod y pandemig. Pan fyddai aelodau o staff yn dangos symptomau COVID-19, byddent yn cael eu hanfon adref i hunanynysu am 14 diwrnod. Byddai angen iddynt gysylltu ag iechyd galwedigaethol i drefnu prawf COVID-19. Unwaith y byddai'r staff yn rhydd o symptomau, gallent ddychwelyd i'r gwaith. Byddai rheolwr y ward hefyd yn cysylltu â'r aelod o staff i gynnig cymorth.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o niwed pwysu neu niwed i feinweoedd. Gwnaethom hefyd holi'r lleoliad ynghylch y newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yr ystyriwyd eu bod yn wynebu risg uchel o gwmpo yn cael gofal nyrsio mewn cilfannau yn agos i weithfan y nyrsys. Roedd menig chwarae, sef menig wedi'u gwau neu gynheswyr dwylo â gleiniau, botymau ac eitemau wedi'u gwnïo

---

<sup>1</sup> yn dechrau yn yr ysbyty

---

arnynt, yn cael eu defnyddio i ddifyrru cleifion â dementia, ac fel ffordd o atal cwympiadau.

Dywedwyd wrthym fod cleifion dryslyd yn cael eu hasesu er mwyn nodi cleifion â diffyg galluedd, a bod ceisiadau am drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS) yn cael eu gwneud yn ôl yr angen. Roedd trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn sicrhau bod y cleifion hynny nad oeddent yn gallu cydsynio i'w trefniadau gofal yn yr ysbyty yn cael eu diogelu, pe bai'r trefniadau hynny yn eu hamddifadu o ryddid. Dywedwyd wrthym hefyd fod y ward yn defnyddio adnoddau arsylwi ychwanegol i'r cleifion hynny yr oedd angen gofal nyrsio un i un arnynt o ganlyniad i broblemau ymddygiad. Roedd y bwrdd cipolwg ar ddiogelwch cleifion hefyd yn cynnwys cyfleuster a oedd yn dangos os oedd unrhyw glaf yn wynebu risg o gwmpo, os oedd gan glaf ddementia neu os oedd gan glaf broblemau symudedd.

Dywedodd y staff wrthym fod pob claf yn cael ei drin fel unigolyn, a bod rhan o'r broses asesu yn cynnwys sicrhau bod anghenion unigol y claf, yn ogystal â'i ddiogelwch, yn cael eu nodi. Roedd y ward yn annog y cleifion i gymryd rhan yn eu gofal ac yn y gwaith o gynllunio eu gofal ac yn eu cynnwys, ac o'r farn bod cyfathrebu yn bwysig. Roedd llenni yn cael eu defnyddio lle roedd angen o amgylch ardal gwely'r cleifion, gydag arwyddion 'dim mynediad'. Er nad oedd toiledau dynodedig i ddynion a menywod, roedd y staff yn ceisio dynodi'r toiled agosaf at y cilfan i ddynion yn doiled i ddynion, a'r un agosaf at y cilfan i fenywod yn doiled i fenywod fel yr oedd yn briodol.

Parhaodd y gwasanaeth caplaniaeth drwy'r pandemig ac roedd y caplan yn ymweld fel y bo angen. Roedd setiau teledu ar y ward at ddefnydd y cleifion, ac roedd perthnasau'n cael eu hannog i ddod â phethau i'r cleifion a fyddai'n gwneud iddynt deimlo'n gartrefol ac yn gysurus. Pe gallent wneud hynny, roedd cyfleoedd i'r cleifion ddefnyddio'r tir cyfyngedig ar safle'r ysbyty i wneud ymarfer corff.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau addysgydd clinigol a benodwyd yn ddiweddar wedi bod ar gael i'r ward, a hwylusodd sesiynau addysgu ar amrywiaeth o bynciau ac a fyddai'n ymchwilio i'r rhesymau dros gwympiadau cleifion. Dywedwyd wrthym fod unrhyw wersi a ddysgwyd o gwympiadau yn cael eu rhannu â'r staff wrth drosglwyddo rhwng sifftiau, gan nad oedd unrhyw gyfarfodydd staff yn cael eu cynnal ar y pryd o ganlyniad i'r angen i gadw pellter cymdeithasol. Dywedwyd wrthym fod dulliau electronig eraill yn cael eu defnyddio i drosglwyddo gwybodaeth. Fodd bynnag, er i ni weld tystiolaeth o'r adolygiad manwl o gwympiadau cleifion mewnol ar Ward B a gwblhawyd ar gyfer pob claf dros 65 oed, ni chawsom weld unrhyw dystiolaeth o'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r sgoriau a oedd yn is na 50%, gan gynnwys:

- Asesiad o'r risg o gwmpo o fewn pedair awr o dderbyn claf
- Tystiolaeth bod y camau yr ystyriwyd bod angen eu cymryd ar sail sgôr yr asesiad

---

risg wedi cael eu cymryd

- Tystiolaeth ysgrifenedig o ddiweddarau asesiadau risg ar ôl symud cleifion rhwng wardiau am y tro cyntaf
- Cynlluniau gofal cwmpadau wedi'u teilwra i'r unigolyn a'u diweddarau
- Aseiad o bresenoldeb deliriwm a / neu ddryswch yn y claf
- Aseiad o Ymataliaeth / Anymataliaeth wedi'i gynnal
- Aseiad o'r Claf mewn perthynas ag ofn cwmpadau.

Yn ychwanegol, gwelsom dystiolaeth bod Archwiliad o Hanfodion Diogelwch Gofal y Ward wedi cael ei gynnal ar 14 Gorffennaf 2020. Roedd yr archwiliad hwn yn cynnwys pum claf ac edrychwyd ar eu dogfennaeth, gan gynnwys bwndeli gofal croen, hydradu a maeth. Roedd yr archwiliad yn dangos na chwblhawyd asesiadau maeth ar gyfer tri o'r cleifion. Unwaith eto, nid oedd unrhyw gofnodion ysgrifenedig o unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i hyn.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun gofal wedi'i ddogfennu ar waith er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hunioni ac na fyddant yn digwydd eto.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Gwnaethom edrych ar y polisiâu rheoli heintiau, y cyfraddau heintiau a'r asesiadau risg.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o sgoriau da o archwiliadau hylendid dwylo a threfniadau noeth o dan y penelin. Dywedwyd wrthym fod systemau ar waith i sicrhau bod mesurau atal a rheoli heintiau yn effeithiol ac yn gyfredol. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheolaidd gan reolwr y ward, archwiliad misol y fetron ac archwiliad atal a rheoli heintiau annibynnol.

Roedd y dystiolaeth a roddwyd yn dangos y cymerwyd camau o ganlyniad i'r ymweliad sicrwydd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a gynhaliwyd ar y ward gan y Tîm Atal a Rheoli Heintiau ar ddechrau mis Medi 2020.

Dywedwyd wrthym fod bwndeli gofal croen yn cael eu cwblhau ar gyfer pob claf ar y ward gan ddefnyddio adnodd asesu risgiau ar gyfer briwiau pwysu o'r enw PURPOSE T. Roedd y system hon yn annog defnyddio barn glinigol yn hytrach na'r system sgorio a oedd yn cael ei defnyddio gan y system flaenorol, sef Waterlow, sydd hefyd yn adnodd asesu risgiau ar

---

gyfer briwiau pwyso. Os ystyriwyd bod unrhyw glaf yn glaf risg uchel, byddai siartiau troi yn cael eu defnyddio ar y ward.

Roedd yr hunanasesiad a ddarparwyd yn nodi pe bai haint megis *Clostridium difficile*<sup>2</sup>, a elwir hefyd yn Cdif neu facteremia<sup>3</sup>, yn digwydd ar y ward, y byddai cyfarfod amlddisgyblaethol yn cael ei gynnal i drafod a phennu unrhyw bwyntiau dysgu ac y byddai camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith. Dywedwyd wrthym nad oedd y cyfarfodydd Cdif amlddisgyblaethol a gynhaliwyd mewn perthynas ag achosion ar y ward yn dangos unrhyw dystiolaeth o groes-heintio.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau (megis uwchgyfeirio).

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

O siarad â rheolwr y ward, ac o'r hunanasesiad a ddarparwyd, gwelsom fod rotas y staff yn cael eu cynllunio chwe wythnos ymlaen llaw ac yn cael eu hadolygu yn unol â'r polisi rotas. Roedd staff parhaol yn cael eu dosrannu'n gyfartal i lenwi swyddi gwag ar y ward, ac roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i lenwi'r bylchau drwy symud staff, defnyddio oriau ychwanegol neu weithio goramser. Yn ogystal, roedd aciwtedd y cleifion yn cael ei asesu bob dydd ac roedd penderfyniadau am staff y ward yn cael eu gwneud yn unol â hynny.

Roedd y fetron yn cael gwybod am unrhyw broblemau staffio er mwyn ystyried defnyddio nyrsys ychwanegol drwy'r gronfa nyrsys neu asiantaethau allanol i gynnal amgylchedd diogel i'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod ymarferwyr nyrsio, nyrsys o'r clinig toriadau a nyrsys dan hyfforddiant wedi bod yn gweithio i lenwi'r bylchau lle roedd prinder staff yn ystod y pandemig. Ni fu unrhyw achosion o lefelau staffio islaw gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

Rhoddwyd dystiolaeth i ni am ganran cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol (wedi'u rhestru fesul pwnc unigol) a nodwyd bod dros 70% o'r staff wedi cwblhau'r mwyafrif o'r hyfforddiant. Roedd y staff yn cael amser i gwblhau hyfforddiant perthnasol, yn ogystal â chyfleoedd ad hoc i gael hyfforddiant ar y ward, megis hyfforddiant gan y nyrsys atal a

---

<sup>2</sup> bacteria sy'n gallu heintio'r coluddyn gan achosi dolur rhydd

<sup>3</sup> presenoldeb bacteria yn y gwaed



---

rheoli heintiau. Yn ogystal, roedd staff y ward yn cynnwys hyfforddwyr ar hylendid dwylo a masgiau FFP3, sy'n rhoi'r lefel uchaf o ddiogelwch, a fyddai hefyd yn rhoi hyfforddiant ar y pynciau hyn.

Roedd y dystiolaeth a roddwyd mewn perthynas ag adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu (PADR) ar gyfer staff band 5 cymwys yn dangos cyfradd gydymffurfio o 66%. Dywedwyd wrthym fod y ffigurau wedi gwella erbyn hyn, a bod pob aelod o'r staff y mae angen PADR arno wedi cael gwybod y dyddiadau pan fyddai'r adolygiadau'n cael eu cynnal. Dywedwyd wrthym y byddai'r adolygiadau hyn yn cael eu cwblhau cyn diwedd mis Medi 2020.

Rhoddyd dystiolaeth i ni hefyd o nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar lefel y bwrdd iechyd ac ar lefel yr ysbyty gan gynnwys trosglwyddiadau mewnol, a chadernid o ran parodrwydd am ymchwydd mewn galw ac argyfyngau.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Fel y nodwyd uchod, cawsom dystiolaeth a oedd yn ymwneud â hyfforddiant gorfodol, a oedd yn dangos cyfradd gydymffurfio o dros 85% ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu (oedolion a phlant) lefel 1. Fodd bynnag, dim ond 32% o'r staff cymwys oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant rôl benodol ar ddiogelu plant lefel 2, a dim ond 43% oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar ddiogelu oedolion.

Dywedwyd wrthym fod rheolwr y ward o'r farn bod problem gyda'r cofnod staff electronig sy'n cofnodi'r hyfforddiant staff a gwblhawyd. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd y bydd nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant pwysig hwn yn cynyddu'n sylweddol ac y bydd y mesurau y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith yn sicrhau y caiff y lefel hon ei chynnal.

---

## Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Treforys

Ward: Ward B

Dyddiad y gweithgarwch: 9 Medi 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Gwelsom dystiolaeth o'r canlynol ar Ward B: Adolygiad manwl o gwympiadau cleifion mewnol a gwblhawyd ar gyfer pob claf dros 65 oed. Ni chawsom unrhyw dystiolaeth o'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r sgoriau a oedd yn is na 50%.	2.3 Atal Cwypniadau	1. Nyrs datblygu ymarfer i gynnal mwy o sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb ar bolisi a dogfennaeth newydd y bwrdd iechyd ar gwympiadau. Yr hyfforddiant i ymdrin â'r trefniadau i sicrhau bod staff yn cwblhau dogfennaeth ar gyfer pob claf adeg ei dderbyn, eu bod yn ei diweddarau'n briodol a bod camau'n cael eu cymryd yn ôl yr angen.	Nyrs datblygu ymarfer / Rheolwr y Ward / Metron	Bydd 95% o'r staff wedi'u hyfforddi erbyn diwedd mis Hydref 2020. Darperir cofnodion hyfforddiant o fetrigau gofal a chofnodion lleol fel tystiolaeth.

			<p>2. Gwelliannau i'r gwasanaeth gan ddechrau gyda Geriatregydd ymgynghorol / Nyrs eiddilwch / Ffisiotherapydd yn gwella arferion atal cwmpiadau mewn perthynas â chleifion mewnol sydd wedi torri gwddf y ffemwr fel rhan o'r llwybr gwddf y ffemwr.</p> <p>3. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu rhoi arferion dogfennu digidol ar waith, a fydd yn cefnogi'r gwaith o wella arferion dogfennu cwmpiadau, gan na ellir cwblhau asesiadau hyd nes y gwneir hyn.</p> <p>4. Archwiliadau parhaus o gwmpiadau a hanfodion gofal i gael eu cynnal gan y ddwy fetron cyn i fetron arall gynnal adolygiad cyhyrsgerbydol ac adolygiad cymheiriaid. (Rhoddwyd tystiolaeth - Tystiolaeth / archwiliadau o gwmpiadau ar gyfer Ward B).</p>	<p>Rheolwr y Ward / Metron</p> <p>Rheolwr y Ward / Metron / Uwch-fetron</p> <p>Rheolwr y Ward / Metron Metron / Uwch-fetron</p>	<p>Caiff adroddiad cynnydd ar y prosiect ei gyflwyno fel rhan o'r dystiolaeth</p> <p>Rhagfyr 2020</p> <p>Ailddechrau'r broses hon bob mis o fis Medi 2020 am gyfnod o 3 mis. Caiff canfyddiadau archwiliadau eu bwydo'n ôl i'r Pennaeth Nyrsio yn fisol a chânt eu trafod hefyd yng nghyfarfodydd llywodraethu'r grŵp SSS. Darperir copïau o'r archwiliadau fel tystiolaeth.</p>
--	--	--	---	---	--

2.	<p>Gwelsom hefyd dystiolaeth bod Archwiliad o Hanfodion Diogelwch Gofal y Ward wedi cael ei gynnal ar 14 Gorffennaf 2020. Roedd yr archwiliad yn dangos na chwblhawyd asesiadau maeth ar gyfer tri o'r cleifion. Nid oedd unrhyw gofnodion ysgrifenedig o unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i hyn.</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun gweithredu wedi'i ddogfennu yn cael ei roi ar waith.</p>	2.5 Maeth a Hydradu.	<p>5. Adolygiad o bob digwyddiad Datix dros y chwe mis diwethaf a wnaeth arwain at gwmp ag anaf neu gwmp heb anaf i gael ei gynnal er mwyn nodi unrhyw wersi i'w dysgu y gellir eu rhannu â'r tîm ehangach.</p> <p>1. Cynhaliwyd yr Archwiliad o Hanfodion Gofal a'r archwiliad o faeth eto i roi llinell sylfaen ar gyfer cydymffurfiaeth bresennol. Sgôr yr archwiliad diweddaraf yw 54%. Cymerodd y fetron gamau ar unwaith i drafod y canfyddiadau â Rheolwr y Ward. Mae'r Nyrs datblygu ymarfer yn darparu hyfforddiant ychwanegol. Mae'r ffaith nad oes modd pwysu'r cleifion wedi effeithio ar y sgôr. Mae'r Uwch-fetron yn edrych ar ddulliau amgen i'w defnyddio ar gyfer cleifion nad ydynt yn gallu dal eu pwysau. (Rhoddwyd dystiolaeth - archwiliad sicrwydd 24 Medi 2020 a Ward B 28 Medi 2020).</p> <p>2. Cynllun gweithredu wedi'i lunio ar gyfer gwella maeth ar Ward B. (Rhoddwyd dystiolaeth - Cynllun gweithredu ar gyfer gwella maeth).</p>	<p>Metron / Uwch-fetron / Arweinydd llywodraethu clinigol</p> <p>Pennaeth Nyrsio / Uwch-fetron a Rheolwr y Ward</p>	<p>Hydref 2020</p> <p>I'w cyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd Cyhyrysgerbydol ym mis Tachwedd. Darperir copïau o'r cyfarfodydd fel dystiolaeth.</p> <p>Cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref â'r Pennaeth Nyrsio / yr Uwch-fetron a Rheolwr y Ward i drafod canfyddiadau'r archwiliadau diweddaraf a'r cynllun gweithredu ar faeth a luniwyd. Cyfarfodydd misol â'r Pennaeth Nyrsio i adolygu cynnydd ar y cynllun gweithredu ar faeth tan fis Rhagfyr 2020. Darperir copïau o'r archwiliadau fel dystiolaeth.</p> <p>Fel uchod</p>
----	---	----------------------	--	---	--

3	<p>O'r dystiolaeth a roddwyd ar yr hyfforddiant a gwblhawyd, gwelwyd bod y gyfradd cwblhau hyfforddiant rôl benodol ar ddiogelu plant lefel dau a diogelu oedolion lefel dau yn isel ar gyfer staff cymwys.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant pwysig hwn wedi cynyddu'n sylweddol a nodi'r mesurau y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith i sicrhau y caiff y lefel hon ei chynnal.</p>	7.1 Y Gweithlu	<p>1. Dyma'r lefelau hyfforddiant presennol Lefel 1 = 100% Lefel 2 = 45.1% Lefel 3 = 100%</p> <p>Ataliwyd gweithgarwch hyfforddi dros dro yn ystod COVID ond bydd yn ailgychwyn nawr ac yn cael ei gefnogi gan y nyrs datblygu ymarfer. Mae hyfforddiant ar-lein ar gael</p> <p>2. Rhoddir y rhestr ddiweddaraf o'r e-ddysgu hanfodol y mae'n ofynnol iddynt ei gwblhau i bob aelod o'r staff.</p> <p>3. Rheolwr y Ward i rannu adroddiad a chynllun gweithredu AGIC â'r tîm nyrsio.</p> <p>4. Y Fetron i rannu'r canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd â'r arbenigedd priodol a'r grŵp metronau ehangach</p> <p>5. Y cynllun gweithredu a chynnydd i gael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd Cyhyrysgerbydol a chyfarfod grŵp Ansawdd a Diogelwch Uned Cyflwyno Treforys.</p>	<p>Rheolwr y Ward / Nyrs datblygu ymarfer</p> <p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr y Ward</p> <p>Metron / Uwch-fetron</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Cael cyfradd gydymffurfio o 100% erbyn mis Rhagfyr 2020.</p> <p>Darperir tystiolaeth o fetrigau gofal fel tystiolaeth.</p> <p>Cwblhawyd 12/9/2020</p> <p>Hydref 2020. E-bost gyda'r adroddiad mewn atodiad fel tystiolaeth.</p> <p>Hydref 2020</p> <p>Tachwedd 2020. Darperir copïau o gofnodion cyfarfodydd fel tystiolaeth.</p>
---	---	----------------	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Julie Thomas. Pennaeth Nyrsio Dros Dro

Dyddiad: 29 Medi 2020